

‘Dewch inni sgrifennu pethau yn yr eira’: Sut i greu Baneri Bach Nadoligaidd



Bydd angen y canlynol arnoch:

- Darnau o ffabrig
- Papur sgrap fel templed
- Siswrn
- Nodwydd ac edau
- Rhuban

‘Roedd ein heira ni yn cael ei ysgwyd o fwcedi gwyngalch i lawr o’r awyr, fe heidiai allan o’r ddaear, fe nofiai, fe ddihangai o freichiau a dwylo a chyrrff y coed...’

Fel y gallwch weld o’r dyfyniad uchod, roedd Dylan wrth ei fodd ag ychydig o eira. Er na allwn warantu unrhyw eira ym mis Rhagfyr, *gallwn* ddefnyddio’i eiriau i’n hysbrydoli yn ein creadigaethau Nadoligaidd. Yn yr arweiniad gweithgareddau hwn, byddwch yn dysgu sut i greu un o’r addurniadau hawsaf (ond mwyaf trawiadol) sydd i’w gael: baneri. Nid oes yn rhaid bod gennych lawer o sgil dechnegol i greu baneri, oherwydd maent i fod i edrych yn swynol o syml. Fodd bynnag, os ydych chi’n wniwr o fri, gallwch ddewis eu gwneud mor gymhleth ag y mynnwch! Rydym hefyd wrth ein bodd â baneri am resymau amgylcheddol: maen nhw’n defnyddio darnau o ffabrig a allai fynd, fel arall, i safleoedd tirlenwi, a gellir aildefnyddio’r baneri flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ar gyfer ein baneri ar thema Dylan Thomas, rydym wedi penderfynu brodio’r trioglau gyda dyfyniad o’i stori Nadoligaidd wych, ‘Nadolig Plentyn yng Nghymru’. Efallai yr hoffech chi

ddarllen y stori hon i roi rhywfaint o ysbrydoliaeth i chi ar gyfer eich dyluniad eich hun. Dyma rai o'n hoff ddyfyniadau (byr), i'ch rhoi ar ben ffordd.

'môr canu-carolau'	'canu fel clychau'
'roedd hi'n bwrw eira'	'ganu carolau'
'tragwyddol ers dydd Mercher'	'tinsel y ffenestri'
'Nadolig a'r eira'	'fe dyfai'r eira dros nos'
'byd gwyn'	

Sut i greu eich baneri:

1. Dewch o hyd i rywffaint o ffabrig. Gall hyn fod mor syml â thorri hen grys-t tyllog, neu drowsus sydd wedi'i dreulio wrth y pengliniau. Dewiswch unrhyw beth nad yw bellach yn addas i'r diben. Os na allwch ddod o hyd i unrhyw ffabrig yna gallwch newid yr arweiniad hwn ar gyfer papur a cherdyn a chyfnwid yr holl gyfarwyddiadau gwnïo i lud neu styffylau. I wneud y baneri hyn yn Nadoligaidd, efallai y byddwch am ddefnyddio ffabrig neu bapur sy'n goch neu'n wyrdd. Neu efallai gwyn neu las, ar gyfer yr eira!
2. Fel arfer, gwneir baneri o gyfres o drionglau. Gall y trionglau hyn fod mor fanwl gywir neu anfanwl ag y mynnwch. Os nad ydych chi'n teimlo'n hyderus, efallai y byddai'n well tynnu llun triongl ar ddarn o bapur, ei dorri allan a'i ddefnyddio fel canllaw. Awgrymwch y bydd angen o leiaf 12 triongl arnoch i wneud y baneri'n ddigon hir - ond mae mwy yn well. Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r siswrn!
3. Gwnaethom dorri dwy set o drionglau mewn dau ffabrig gwahanol. Mae hon yn ffordd hawdd o wneud y baneri'n fwy amlwg. Trwy ddewis ffabrig patrymog ar gyfer y triongl mawr a ffabrig plaen ar gyfer yr un bach, rydych chi'n sicrhau y bydd eich geiriau sydd wedi'u brodio yn fwy amlwg. Bydd angen i chi dorri'r set fewnol o drionglau ychydig yn llai fel bod border wedi'i greu gan y ffabrig sylfaen pan fyddant yn cael eu pwytho gyda'i gilydd [gweler y llun]. Os ydych chi'n bwriadu brodio dyfyniadau, peidiwch â phwytho'r trionglau hyn gyda'i gilydd eto. Os nad ydych chi am gynnwys dyfyniadau, ewch ymlaen i gam 5.



4. Gan gymryd y trionglau llai, cyfrifwch faint ohonynt y bydd eu hangen arnoch ar gyfer eich dyfyniad. Os ydych chi'n gwneud dyfyniad hwy, gallech chi ddewis un triongl fesul gair. Ar gyfer dyfyniad byrrach, gallech chi ddefnyddio triongl fesul llythyren. Felly, i frodio 'byd gwyn' bydd angen i chi naill ai wahanu dau driongl bach neu saith triongl bach. Pwytho'r geiriau ymlaen yw'r rhan fwyaf difyr ac mae'n iawn os nad yw'r llythrennau bob amser yn

ymddangos y ffordd roeddech chi'n ei ddisgwyl. Os ydych chi'n defnyddio papur a cherdyn, gallwch chi ysgrifennu'r dyfyniad ymlaen, ac os nad ydych chi'n teimlo'n hyderus gyda nodwydd ac edefyn gallech chi hefyd ddefnyddio pin marcio cryf ar y ffabrig.

5. Nawr mae angen i chi bwytho'r trionglau bach ar y trionglau mawr, gan eu canoli fel bod border. Gallwch bwytho'r rhain fel y dymunwch oherwydd mae hon yn rhan arall lle mae anfanylder yn ychwanegu at yr harddwch.
6. Unwaith y byddwch wedi paratoi eich trionglau i gyd - gan gynnwys y rhai gwag ar gyfer y bylchau rhwng geiriau os yw'n berthnasol - mae'n bryd i'w gosod ar rywfaint o llinyn neu ruban. Er mwyn osgoi colli geiriau, llythrennau neu fylchau, rydym yn cynghori gosod yr holl drionglau ar fwrdd neu ar lawr yn yr union drefn y dylent ymddangos ar y baneri. Yna gosodwch y rhuban neu'r llinyn ar hyd y trionglau ac ychwanegwch tua 20cm o hyd i'r ddau ben (fel y gallwch eu clymu). Does dim angen i chi dorri'r rhuban/llinyn eto, gallwch ddechrau gwnïo ar un pen ac aros nes eich bod wedi gosod y triongl olaf. Dechreuwch tua 20cm i mewn, a chodwch y triongl cyntaf yn eich rhes a drefnwyd ymlaen llaw. Parhewch nes bod yr holl faneri wedi'u gosod, ac yna torrwch y darn sy'n weddill wrth adael 20cm fel cwlwm.
7. Rydych chi wedi gorffen! Nawr, yr unig beth y mae angen i chi ei wneud yw eu hongian, lle gall pawb eu gwerthfawrogi.



